# JOHN YSTUMLLYN

NEU

# "JACK BLACK,"

HANES EI FYWYD A THRADDODIADAU AM DANO,

O'R AMSER Y DYGWYD EF YN WYLLT O

AFFRICA, HYD ADEG EI FARWOLAETH; EI

HILIOGAETH, &c., &c.,

YNGHYDA DARLUN O HONO YN Y FLWYDDYN

1754.

GAN ALLTUD EIFION.

ARGRAFFWYD GAN R. ISAAC JONES, TREMADOC.

1888.



JOHN YSTUMLLYN
'JACK BLACK'
1754

A dynwyd oddiwrth y Llûn (*Painting*) gwreiddiol o'r dyddiad uchod.

*Y mae'r Englyn canlynol ar ei feddlech o waith*
*Dafydd Shon James, Penrhyndeudraeth.*

" Yn India gynna'm ganwyd,—a nghamrau
Ynghymru'm bedyddiwyd ;
Wele'r fan dan lechan lwyd,
Dû-oeraidd y'm daiarwyd."

## *RHAGYMADRODD*

AT FY NGHYDWLADWYR,

Ymgeymerais a chasglu yr hyn a ganlyn, o herwydd fod gwrthrych y cofiant hwn yn nodedig o ran ei ddygiad i'r wlad hon, (yn un o hiliogaeth Ham,) yn enwedig felly y pryd hwnw, sef tua chant a haner o flynyddoedd yn ol, pan nad oedd yr un dyn dû yn y rhan yma o Gymru; a chan fod bywgraphiad o bob math yn esboniad ar yr oes y bydd y gwrthrych yn byw ynddi, am hyny y dylid ymdrechu i gadw rhag difancoll, nodweddiadau neillduol o bob natur mewn ardal.

Hyn yn benaf am hanogodd i gasglu yr hanes canlynol am John Ystumllyn, gan ddisgwyl y bydd o ddyddordeb i'r darllenydd yn neillduol i ardalwyr Eifionydd, ac yn llinell "cof a chadw" i'r oesau dilynol.

Dylwn yma gydnabod cynorthwy sylweddol rhai o'r ardalwyr.

Yr eiddoch, &c.,

ALLTUD EIFION.

*Tremadoc, Ionawr*, 1888.



## *CYNNWYSIAD.*

Byr nodiadau am henafiaid Bronyfoel a'r Ystumllyn.

Ychydig o hanes am John Ystumllyn (*Jack Black*).

Traddodiad am dano, a glywyd gan hen frodorion, ag ydoedd yn cydoesi âg ef ; ei ddygiad o Affrica (neu India, medd rhai) i Lundain, ac oddiyno i'r Ystumllyn.

John yn colli ei le yn Ystumllyn, am ddiangc i Ddolgellau i briodi; lle y gwasanaethai morwyn bach Ystumllyn, yr hon oedd yno yr un amser a John, yr hon mewn amser a ddaethai yn wraig iddo.

Hefyd ei hiliogaeth o'r briodas, y lle yr ydoedd yn byw, a'r Palas olaf y gwasanaethai ynddo.

Yr achos o'i farwolaeth, gwahaniaeth amser ei farwolaeth, rhwng cofrestr y plwyf, a'r feddlech bresenol sydd ar ei fedd.

Ei oedran tybiedig pan fu farw sef 46ain mlwydd.

Englyn sydd gerfiedig ar ei feddlech o waith Dafydd Shon James, Penrhyndeudraeth, yr hwn oedd dad i un o'r un enw, ac ydoedd yn byw yn Tremadog, ddeugain mlynedd yn ol, *town crier,* a chlochydd plwyf Ynyscynhaiarn.

Hefyd Darlun cywir o hono, wedi ei dynu oddiwrth y ***Painting*** gwreiddiol a wnaed Mai 11eg, 1754, a gafwyd drwy ganiatad a charedigrwydd Owen Evans, Ysw., Broom Hall.

HANES

# JOHN YSTUMLLYN,

## NEU "JACK BLACK."

Tua'r flwyddyn 1356, yr ydoedd yn byw yn Llŷs Bronyfoel y Gest, Filwr dewr o'r enw Hywel ab Einion ab Gruffydd, a gyfenwid Syr Hywel y Fwyell, gan iddo fe ddywedir, dori pen march brenin Ffraingc, yn rhyfel y *Poictiers,* o dan Edward, y Tywysog Du, a chymeryd y brenin yn garcharor, am yr hyn y cafodd Urdd Marchog ar faes y gwaed. Hefyd rhoddodd y brenin iddo ei Felinau yn Eifionydd, ac ardreth Melinau Dyfrdwy yn Nghaerlleon, a Cheidwadaeth Castell Criccieth. Hefyd gorchmynodd y Brenin i Saig, neu Wledd gael ei chynal bob blwyddyn o flaen y Fwyell, a deuddeg o ddynion a elwid *Yeomen* i'w mwynhau; parhâodd yr arferiad hyd deyrnasiad y frenhines Elizabeth. Yr ydoedd Syr Hywel yn deilliaw mewn llinell uniongyrchol o Collwyn ab Tangno, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd (gwel y "Brython," cyfrol 1860, tudal. 288). Rhydd Syr John Wynn, yn ei "Hanes teulu Gwydir," lawer o hanes ymrafaelion, ac ydoedd yn bodoli yn Eifionydd, rhwng dwy gangen deuluol, sef teulu Bronyfoel, a theulu y Gesail Gyfarch. Yr ydoedd hen ddrwg rhyngddynt er's amser. Un diwrnod aeth cefnder i John ab Meredydd, sef Gruffydd ab John ab Goronwy o'r Gwynfryn (un o henafiaid H. J. Ellis-Nanney, Yswain), gyda'i was i Lyn Ystumllyn i bysgotta; dygwyd y pysgod oddiar y gwas a churwyd ef, yn ol gorchymyn Hywel ab Rhys o Fronyfoel, yr hwn oedd berchenog y llyn. Cymerodd Gruffydd ab John ab Goronwy y peth i fyny gyda'r fath soriant, ac a heriodd Hywel ab Rhys i'r maes, yr hyn a wrthododd; yna ymosododd Gruffydd ab John a'i berthynasau ar Bronyfoel yn y dull y gwelsai y Rhyfeloedd yn Ffraingc. Rhoes y tai allan ar dân, ac amcanodd losgi y Neuadd. Yna aeth Hywel ab Rhys i ffenestr, a saethodd Gruffydd ab John, fel y bu farw. Cymerwyd ef yn garcharor i Gastell Caernarfon, ond yn y prawf barnwyd mai mewn amddiffyniad i'w dŷ a'i fywyd y gwnaeth, ond ni ddaeth byth yn ol i Fronyfoel; adfeiliodd y tŷ o ychydig i ychydig. Yr oedd y Bettws Treflys yn gapel teuluol ganddynt, ac y mae'n debyg i'r ychydig ffermydd o amgylch gael eu gwneyd yn blwyf bychan, a'r Eglwys gael ei chyssegru i Michael yr Archangel, ond adeiladodd y teulu Balas Ystumllyn, a dechreuasant adeiladu capel teuluol ar 'Ynys y capel' gerllaw; ond yn lle gorphen y capel, cawsant ran o Gangell Ynyscynhaiarn, pan dynwyd yr Eglwys hono oddiwrth Benmorfa, at blwyf Criccieth.

Cymysgodd teulu Hywel ab Rhys, a'r Wynniaid o Benyberth, a



Wynniaid Rhwng-y-ddwyryd. Y mae eu llinach yn lled gyfa yn *'History of the Gwydir Family,'* ac yn y 'Brython,' megys y crybwyllwyd o'r blaen.

### Y Bachgen Du yn dyfod i'r Ystumllyn.

Nid oes sicrwydd pa un o'r teulu a ddaeth a'r Bachgen Du i'r Ystumllyn.* Y traddodiad oedd yn cael ei dderbyn fel yr un cywir driugain a deg o flwyddi yn ol, yr hyn hefyd a glywodd yr ysgrifenydd gan ei fam, yr hon a fagwyd yn Ystumllyn, ac a anwyd tua'r un amser ac y bu farw John Ystumllyn, sydd fel y canlyn fod i un o'r teulu, yr hwn oedd gadndo *Yacht,* ddal y bachgen mewn coed yn Affrica a'i ddwyn adref i'r Ystumllyn; yr oeddynt yn barnu mai tuag wyth mlwydd oed ydoedd, ac iddynt fyned ag ef i Eglwys Criccieth, neu'r Ynys i'w fedyddio, a'i alw yn *John Ystumllyn.* Pan newydd ddyfod yno yr oedd yn dra dychrynedig, ac ofn pawb dyeithr arno, nid oedd ganddo yr un iaith, dim ond rhyw beth tebyg i udiad, neu 'sgrechiadau.

Dywedai rhai o'i olyddion, mai nifer o fechgyn duon a diriodd yn Llundain, ac i chwaer Ellis Wynne o'r Ystumllyn, yr hon oedd yn byw yn Llundain, ei anfon yn anrheg i'w brawd. Ond dywedai John ei hun, mai ar lan afon fechan mewn coed yr ydoedd yn ceisio dal Iar ddwfr, pan ddaeth dynion gwynion yno a'i ddal gan ei gipio ymaith gydâ hwynt i'r llong. Yr oedd ei fam, meddai, yn eu gweled ac a redodd ar eu holau, gan wneyd oernadau dychrynllyd. Dywed rhai ei fod tua 13eg oed pan ddaliwyd ef, ond gan nad oedd ganddo iaith ond swn fel udiad ci, yr ydoedd yn anhawdd penderfynu ei oedran. Yn ol yr amser y daeth yno, ar amser y bu farw, gellir barnu mai tua 16eg oed ydoedd yn 1754, sef yr amser y tynwyd ei lun, (copi o'r hwn sydd yn nechreu y llyfr hwn), y tebygrwydd ydyw, mai y traddodiad cyntaf (fel y dywedai fy mam) sydd nesaf i fod yn gywir, mai bachgen *wyth* oed ydoedd. Bu arnynt gryn drafferth i'w ddofi am amser hir, ac nis goddefid iddo fyned allan; ond wedi tipyn o drafferth gan y boneddigesau, dysgodd y ddwy iaith, a dysgodd ysgrifenu; yna rhoddwyd ef yn yr ardd i ddysgu garddwriaeth, yr hyn a wnaeth yn dra pherffaith, gan e fod yn hynod gywrain. Gallasai droi ei law at bron bob peth a welai eraill yn ei wneyd, megys llongau bychain, llwyau pren, basgedi gwîal, &c. Yr oedd hefyd yn hoff iawn o flodau, ac yn *florist* da.

### John Ystumllyn wedi myned yn llangc.

Daeth yn llangc iraidd a heinyf, ac er ei fod o liw dû, byddai gwyrryfon yr ardal yn *dottio* arno, ac yn ymryson am gael John yn gariad!

Pan gyda'i orchwyl yn yr ardd, byddai John yn cael dogn o gwrw a bara chaws o'r Plâs, ar adeg benodol o'r dydd, a byddai y forwyn

*Pa un o'r Wynniaid a ddaeth a *Jack Black* i'r Ystumllyn? Mae'n bosibl mai Ellis Wynne hynaf, gan mai yn 1757 y ganwyd y Major Wynne. Dywedir fod Major Wynne, yn *Swordsman* di-ail, gallai dynu bottwm Crys un gyda'i gleddyf, heb yn wybod iddo, a llawer o gampau a gwrhydri eraill.

bach, sef Margaret (ac wedi hyny a ddaeth yn wraig iddo) yn cael ei hanfon gyda'r ddogn i'r ardd; ond cymaint oedd ei hofn o'r dyn dû fel y gadawai y bwyd a'r diod yn nghwr yr ardd, gan ddiangc yn sydyn rhagddo; ond hon mewn amser a ddaeth yn wraig iddo! Ac fel nad oes gyfrif i'w roddi am chwaeth (*fancy*) yr ystlen dêg at eu gwrthryw, nis gellir dyfalu paham yr ydoedd merched yr ardal yn ymryson am "John Ystumllyn."

## John Ystumllyn yn diangc i briodi.

Aeth Margaret y forwyn bach o'r Ystumllyn i'r Ynysgain bach, Criccieth, i wasanaethu, teulu yr hwn le ydoedd yn berthynasau iddi.

Yn mhen amser, aeth John yno ryw noswaith i garu; clywai gwr y tŷ ryw dwrw yn y gegin, aeth yno, ac er ei syndod gwelai rywbeth dû yno ar lun dyn, dychrynodd gymaint fel y diangodd yn ol, gan sicrhau wrth ei wraig iddo weld y C-th-l dû yn y gegin!

Aeth Margaret Gruffydd (oblegid dyna ei henw morwynol), merch Hendre mur, Trawsfynydd, i Ddolgellau i wasanaethu at wraig i offeiriad yno, yr hon oedd fodryb iddi. Tra bu hi yn Dolgellau, daeth John o'r Ystumllyn, diangodd i briodi, am yr hyn y collodd ei le. Diangodd hithau cyn ei boreufwyd, felly priodwyd hwy yn Eglwys Dolgellau tua'r flwyddyn 1768. Ei was priodas oedd Griffith Williams, Eisteddfa, mab i'r Parch. R. Griffith, B.A., Person Criccieth, a'r Ynys, hen daid i Humphrey Gruffydd, Cae canol, Penmorfa.

Collodd John ei le yn Ystumllyn o herwydd diangc i briodi; ar ol priodi buont yn byw am ysbaid yn yr Ynysgain fawr, yn cadw pentiriaeth.* Ganwyd iddynt saith o blant,—Robert a fu farw yn faban. Richard a anwyd yn 1770. Lowri a fu farw yn faban. Lowri yr ail, a anwyd yn 1774. Gwen a Margaret ni buont yn briod. Ann a briododd yn Lerpwl, ac yno bu farw ac y claddwyd hi. Priododd Lowri â Robert Jones, Butler, yn Madryn, Lleyn, (lle'r oedd y ddau yn gwasanaethu,) mab i Ellis Jones, o Gaer, Siopwr (gynt yn Ruthin), o deulu Mr. R. Lloyd, *Agent*, Syr Joseph Huddart, Brynkir. Bu iddi ferch o'r enw Anne, yr hon sydd yn awr yn fyw yn Mhorthmadog. Ail wr Lowri oedd John Mcnamare, *foreigner*.

Yr oedd mab John Ystumllyn a Margaret Gruffydd, sef Richard Jones, yn ymbleseru llawer mewn hela, a dilynai foneddigion yr ardaloedd yn yr *Hunts*, fel y byddai yr arferiad yn y rhan hon o'r wlad ar y pryd hwnw; a phan dyfodd i oedran, aeth yn *Helsmon* i'r Anrhydeddus Arglwydd Newborough, Glynllifon, lle bu yn gwasanaethu am yr ysbaid maith o 58ain mlynedd. Yr oedd yn byw mewn lle a elwid Cae'r-geifr, Llandwrog. Dyn tal, llonydd, ydoedd, gwisgai Het Silk, Côt Velvet, a choler wen uchel am ei wddf.

Wedi i henaint ei ddal rhoddodd ei swydd i fynu, a rhoddodd Arglwydd Newborough *bension* iddo tra bu byw ; y mae teulu ar ei ol yn Llandwrog. Yr oedd yn wr tawel, mwynaidd, a difalais ; bu farw yn 92 oed, yn y flwyddyn 1862, ac a gladdwyd yn mynwent Llandwrog, er iddo ddymuno yn fawr gael ei gladdu yn medd ei dad yn Ynyscynhaiarn.

Priododd Ann, ferch John Ystumllyn, ac un James Martin, yn Lerpwl, Gwerthwr Offerynau Cerdd. Gwelwyd ef unwaith ar ymweliad â Chriccieth ; yr oedd yn chwareuwr campus ar bob offeryn cerdd.

I ddychwelyd at hanes "John Ystumllyn," a'i wraig Margaret. Y mae'n debyg iddo gael ei le yn ol yn Ystumllyn, ond pa hyd y bu yn Ynysgain fawr, nid oes hanes y gellir ymddiried iddo.

Yn niwedd ei oes aeth i drigianu i le a elwir Y Nhyra Isa,* tŷ bychan to gwellt, mewn nant rhwng Cefn-y-meusydd uchaf, a Thyddyniolyn, a gardd fawr o'i amgylch, yr hwn a roddasid i John, ynghyda chae bychan o flaen drws y tŷ. Rhoddasai Ellis Wynne, Ysw., y lle yn feddiant iddo, fel cydnabyddiaeth am ei wasanaeth. Nid oes sicrwydd am yr amser yr ymadawodd John a hen deulu Ystumllyn, ond mai yn Maesyneuoedd gydâ changen o'r teulu, yr oedd John yn gwasanaethu yn niwedd ei oes. Bu farw wedi hir nychdod, dan y clwyf melyn (*Jaundice*) yn 46 mlwydd oed, fel y tybir, yn ei gartref yn mis Gorphenaf, yn y flwyddyn 1786, yn ol y cofrestr, er mai y flwyddyn 1791, o'r un mis sydd ar garreg ei fedd; pa fodd y gellir cysoni hyn nis gwyddom, onid ellir ymddiried i'r traddodiad a glywais ei wyres, sef i'r feddlech gyntaf drwy ryw anffawd gael ei malurio, ac mai ail feddlech ydyw yr hon sydd arno'n bresenol, yr hon a roddasai Owen Ellis arno, tad y diweddar Ellis Owen. Dywedir mai ar y Sul y claddwyd ef, ac ni wyddis pa beth fu'r achos, pa un a'i nas gallesid ei gadw yn hwy, neu ryw amgylchiadau anorfod yn galw am hyny. Y mae'r englyn canlynol ar ei feddlech yn mynwent Ynyscynhaiarn, o waith Dafydd Shon James, Penrhyndeudraeth, tad i Dafydd Shon James, Tremadog, y *town crier*, a chlochydd y plwyf.

> " Yn India gynna'm ganwyd,—a nghamrau
> Ynghymru'm bedyddiwyd ;
> Wele'r fan dan lechan lwyd,
> Dû-oeraidd y'm daiarwyd."

*Tua'r amser yma yr ymadawodd Ellis Jones, oddiyno i Llwynymafon isaf, yr hwn oedd dad Evan Ellis, Brongadair bach, a thaid Robert Evans, Pentrefelin.

*'Nanhyran' y sillebir yr enw yn y cofrestr plwyfol, galwai'r hen bobl y lle "Nhyrau ddu'. Tybiai Ellis Owen Cefnymeusydd mai 'Nant Harri ddu' oedd ei ystyr. Sicr yw ei fod yn llanerch henafol, oddiwrth olion hen furiau a sylfaeni sydd oddiamgylch, llawer o ba rai a gliriwyd yn yr oes o'r blaen. Cafwyd yma hen feini melin law (sef Breuan). Caed darn arian ac amseriad y Frenhines Elizabeth arno mewn cae yno 40 mlynedd yn ol. Gwelir enw Cyhuran ab Cïan y rhyfelwr gwych, yn Gododin Aneurin Gwawdrudd. Y mae llawer o enwau henafol yn agos i'r lle,—Gallt Rhodri; Tyddyn Iolo, neu Iolyn ; Llwynymafon, neu Mabon efallai ; Caegwenllian; Llidiart dunawd; Ffynon dunawd; Cae'r dunawd ; lle caed cist (*urn*) yn y ddaear; hefyd Mur gwgan; y Garnedd hir; Gesail gyfarch, lle caed beddlech henafol nas gallai Ieithwyr penaf yr oes benderfynu pa beth ydoedd, hefyd ychydig bellder i'r Gorllewin y mae Hen fonwent ar dir Llwynymafon isaf, lle caed llawer o lestri priddfaen (*urns*). Hwyrach mai Nant Cyhuran oedd yr enw gwreiddiol.

Fel y gwelir fod gwall bychan ynddo, ond yn bur ddisgrifiadol; hefyd mae'n amlwg wrth ei ddarlun mai nid brodor o'r India ydoedd. Byddai llawer yn cyrchu i weld ei fedd, yn yr amser gynt, gan na chladdasid yr un dyn dû yn y fonwent hono cynt, i neb wybod.

Bu Margaret ei wraig fyw am amser maith ar ei ol. Hen wreigan dawel a siriol ydoedd hi; bu farw yn y Nhyra,* mewn oedran teg, sef 81 mlwydd oed, yn y flwyddyn 1828. Ni bu erioed yn defnyddio gwydrau (*spectacles*), yr ydoedd yn gallu gweled i wnio a gwau hyd o fewn ychydig fisoedd i'w marwolaeth, gwelir iddi oroesi John ei gŵr dros 40 mlynedd.

## Ychydig Sylwadau Nodweddiadol am John Ystumllyn, &c.

Yr oedd syniadau rhyfedd yn mhenau pobl yr ardal yn yr oes hono am DDYN DU, gan mor anghyffredin ydoedd. Un tro yr oedd dwy forwyn yn siarad am dano, ac yntau yn rhywle yn clywed,—"A wyt ti yn meddwl meddai y naill wrth y llall fod gwaed y dyn yna yn goch fel eiddo dyn gwyn," ni chafodd y llall amser i ateb, canys atebodd John hi gan ddywedyd yn ei ddull ei hun,—"Hen ffwl gwirion, na di ladd iar ddu, a iar wen, na ti weled fod gwaed y ddau yn goch."

Byddai ar blant yr ardal ei ofn yn anghyffredin, am nad oeddynt wedi gweled yr un dyn dû o'r blaen. Yr oedd John yn hynod o onest a geirwir, a difalais drwg, ac yn barchus iawn gan fonheddig a gwreng.

Yr oedd yn cael ei gyfrif gan yr hen bobl yn ddyn hynod o foesol, dywedai pan ar ei glaf wely wrth gymydog iddo (taid yr ysgrifenydd, sef John Jones, Tyddyniolyn) mai y peth yr oedd yn gofidio fwyaf o'i herwydd ydoedd, iddo chwareu y grwth (*fiddle*) ar y Suliau yn Ystumllyn a Maesneuoedd. Yr ydoedd lliw ei groen yn tynu sylw mawr y pryd hwnw, a'i sefyllfa gydâ phrif foneddigion yr ardal yn tynu mwy o sylw y cyffredin ato, na nemawr i neb.

Ni a grybwyllwn yn y fan hon am un neu ddau o amgylchiadau y tybiwn yn werth eu cofnodi. Un tro drwy anffawd, gadawyd drws yr ardd yn Ystumllyn yn agored, aeth hwch i mewn i'r ardd yn absennoldeb John, gan wneyd galanastra a difrod mawr, daeth yntau i'r ardd ar ei gwarthaf; ac yn ei waith yn troi y tresmesydd ystyfnig allan, yn y ffrwgwd torodd ei choes bu yntau'n ymgynghori a'r gweinidogion pa fodd i hysbysu y Teulu am ddifrod yr hwch, a'r amgylchiad o dori ei choes. Yr oedd rhai o honynt yn ceisio ganddo dd'weyd

*Dywedir fod boneddigion Ystumllyn wedi trosglwyddo Y NHYRA ISA, a'r Ardd, a rhan o'r Cae o flaen y tŷ yn feddiant i John Ystumllyn, a'i hiliogaeth. Wedi marw Ellis Wynne, Ystumllyn, priododd ei weddw yn 1767, âg Ambros Lewis o Fôn, yr hwn a fu farw yn 1792 a bu Mrs. Wynne Lewis farw yn 1799. Ar ei hol hi aeth yr Etifeddiaeth i feddiant un Humphrey Jones, Cyfreithiwr, Machynlleth ; yr hwn oedd wystlwr. Dywedir i hwnw fyned at Margaret Jones, y Nhyra, gweddw John Ystumllyn, a'i pherswadio i roddi yr ysgrif (*Document*) i fyny, y cai ef am ei hoes, a'r teulu am 6c. yn y flwyddyn; ond gorfodwyd hwy i dalu punt yn y flwyddyn, a chymerwyd y Cae oddiarnynt fel y gwelir y lle heddyw. Y mae Etifeddiaeth Ystumllyn yn awr yn feddiant i Mr. Owen Lloyd-Evans, Broom Hall.



mai wrth fyned dros y wal y bu'r anlwc,—"Na, na, meddai John" "ni werthaf fi mo fy enaid i'r cythrael, er mwyn cadw fy hun;" felly pan ddaeth ymholiad, gofynodd y feistres i John, "pwy dorodd goes yr hwch"?" "Y fi," ebai John, "a thoraf goes pob un a ddaw i'r ardd eto i wneyd difrod ar fy ngwaith," ar hyny terfynodd yr ymholiad.

Yr oedd amaethdy y Cwm bach, (gerllaw Tremadog, yn awr) yn perthyn i'r teulu, a byddai John yn cael gorchymyn ar brydiau i geisio ymenyn, a chaws, &c., oddiyno, gan fod y boneddigion yn gosod tir Ystumllyn, yr adeg hono; ac fel y byddai archiad John yr anfonant. Enw tenant y Cwm bach y pryd hwnw (1773) oedd Edward Jones, mab Shon Gruffydd, Ymwlch, ac y mae'n ymddangos mai ei weddw Betty Parry (un o deulu Penychain) oedd yno yr adeg y bu'r tro a grybwyllir rhagllaw. Hen wreigan gynnil iawn oedd Betty Parry, ond pan elai *Jack Black* yno byddai yn dangos pob croesaw iddo, ac yn rhoi gwledd iawn bob tro i *Mr.* Thiack, fel ei galwai, (yr oedd yn fodryb i'w wraig). Yr oedd llafn o was cyfrwys-ddrwg yn y Cwm bach yn hysbys o'r croeso a gaffai *Jack Black* pan ddeuai yno ar neges, efe a barddûodd ei hun, gan ymdebygu oreu gallai i *Jack*, a galwodd gydâ Betty Parry yn yr hwyrnos, gan roddi yr *orders* arferol o'r Ystumllyn, a chafodd wledd iawn ganddi. Anfonwyd y nwyddau i'r Ystumllyn: gan na wyddai neb am yr *orders*, holwyd y cenad pwy a'u *hordrodd*, dywedai yntau mai John oedd wedi bod yno yr amser ar amser. Erbyn cael John a'r genad, a'r feiistres wyneb yn wyneb, dywedai John yn benderfynol na bu yno o gwbl yr amser a nodwyd. Daeth Betty Parry yno a thaerodd yn haerllug mai eu "dyn dû hwy a fu yno, nad oedd yr un dyn dû yn y wlad ond John." Ymhen amser daeth y gwir hanes i'r Ystumllyn, mai ei thwyllo gan y gwas a gafodd yr hen wraig, yna yr aeth pob peth yn mlaen yn dawel. Dywedir mai un o feibion y Castell, ger Penmorfa oedd y *wag* a gyflawnodd y *Joke*.

Un tro arall y cariwyd *Joke* tebyg hefo John pan ydoedd yn ngwasanaeth y Wynniaid, Maesneuoedd. Gorchymynodd rhyw ddyhirod Hadau Gerddi yn ei enw gan ei bersonoli; effeithiodd hyn yn fawr ar ei feddwl pan gafodd y peth allan, a dywedir i hyny fod yn achos i fagu y Clwyf Melyn arno, o'r hwn y bu farw. Y meddyg a weinyddai arno, oedd Doctor Robert Isaac Roberts, taid yr ysgrifenydd.

Byddai y diweddar Ellis Owen, Cefnymeusydd, yn adrodd *stori* ddifyr am Margaret Jones, y Nhyra, yn Ffair Penmorfa, pan oedd Richard ei bachgen (Richard Jones, *Helsmon*, Glynllifon ar ol hyny) tua 2-flwydd oed, aeth ag ef ar ei braich brydnhawn ddiwrnod Ffair G'lamai, fel y byddai yr arferiad y pryd hwnw, ac aeth John Ystumllyn i'r ffair gyda'r nos. Y plentyn yn gweld ei dad ychydig bellder oddiwrtho, a waeddai 'Dada, Dada,' yna dywedai y fam wrth ei chyfeillesau "a welsoch chwi blentyn erioed mor graff a hwn, yn adnabod ei dad yn nghanol cymaint o bobol," heb ystyried mai dû fel y frân oedd ei dad, ynghanol pobl wynion, yn ol y ddihareb,—"Gwyn y gwel y fran ei chyw."